Gwers: Pa mor weithgar ydych chi?

Amcanion Dysgu:
Dadansoddi data, gwneud cymariaethau, llunio casgliadau yn seiliedig ar ddata gwirioneddol.
Defnyddio siartiau bar cymharol a thrin data.
Archwilio'r gweithgareddau y mae disgyblion yn eu gwneud yn eu hamser hamdden.
Deall pwysigrwydd ymarfer corff i ffordd o fyw ac ystyried gweithgareddau newydd.

I ddechrau: Defnyddiwch y dafen taflunydd 'Activities done by Children'. Cynhaliwch weithgaredd dyfalu a dangos ar echelinau a labeli. Trafodwch. Ailadroddwch y gweithgaredd ar gyfer disgyblion mewn dosbarth. Cymharwch â'r daflen taflunydd. (neu gwnewch y dasg yn rhyngweithiol)	**Disgyblion** Rhoi resymau dros eu dewis o labeli graff. Ystyried y gweithgareddau maent wedi'u gwneud yn ystod y bythefnos flaenorol a chwblhau graff dosbarth a chymharu.	**Athro** Cynorthwyo'r disgyblion i ddyfalu'r labeli cudd. Hwyluso'r gweithgaredd i greu graff dosbarth i gymharu.
Prif dasg: Defnyddio'r daflen waith i archwilio'r defnydd o siartiau bar cymharol. Cliciwch ar y cysylltiadau perthnasol i wirio atebion ac i archwilio ymhellach. Gweithgaredd ymestyn: Defnyddiwch ddata craidd i gymharu rhwng bechgyn a merched ar weithgareddau a wnaed yn ystod y bythefnos flaenorol.	**Disgyblion** Cwblhau tasgau'r daflen waith. Gwirio eu hatebion ar-lein. Rhoi cynnig ar y dasg ymestyn.	**Athro** Ceir taflen ateb i'r disgyblion ysgrifennu arni os hoffech ei defnyddio. Helpu'r disgyblion i gwblhau tasgau'r daflen waith. Rhoi syniadau ar y dasg ymestyn.
Sesiwn lawn: Cynhaliwch drafodaeth ddosbarth ar p'un a yw nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn cynyddu/gostwng ac unrhyw wahaniaethau rhwng bechgyn a merched. Ystyriwch greu cynllun gweithredu ar sut i annog/hyrwyddo chwaraeon yn eich ysgol.	**Disgyblion** Cymryd rhan mewn trafodaeth ddosbarth, cyflwyno dadleuon pendant dros eu safbwynt. Awgrymu syniadau ar sut gallant wella nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn eu hysgol.	**Athro** Darllen y ddwy ddogfen a gyhoeddwyd gan Sport England. Penderfynu pa ystadegau fydd yn briodol ar gyfer eich dosbarth. Galluogi trafodaeth, ac annog disgyblion i lunio eu cynllun eu hunain i hyrwyddo chwaraeon.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Darparu gwybodaeth am eu gweithgareddau, rhoi cynnig ar y daflen waith, gwrando ar drafodaeth ddosbarth.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Cwblhau taflenni gwaith, cymryd rhan mewn trafodaeth ddosbarth, rhoi rhesymau dros eu syniadau.
Bydd rhai disgyblion yn: Rhoi cynnig da ar y dasg ymestyn ac yn rhoi rhesymau pendant dros eu holl atebion.

Adnoddau: Taflenni gwaith, Taflenni ateb, Ffeil taenlenni, Meddalwedd taenlenni, Bwrdd gwyn neu Daflunydd, Dogfennau Sport England, Cyswllt â'r rhyngrwyd.

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth:
Gwaith fel dosbarth cyfan a gwaith unigol. Yn ddelfrydol dylid cynnal y wers mewn ystafell gyfrifiaduron a byddai bwrdd gwyn rhyngweithiol yn ddefnyddiol ar gyfer y gweithgareddau ar gyfer y dosbarth cyfan, fodd bynnag, gellir addasu'r wers yn hawdd heb ddefnyddio TGCh.

Geiriau allweddol: Siart Bar, Cymharol, Data, Chwaraeon, Gweithgaredd.	**Cysylltiadau Strategol CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd:** Mathemateg: MA4 tudalennau 262-263 Fframwaith NNS CA3 Ymarfer Corff: 4 c) a d) AIBCh 2 b) a c) a Dinasyddiaeth 2 a), b) a c), 3 c) Mae'r wers hon yn ddelfrydol ar gyfer adegau pan na fydd yn bosibl cynnal gwersi ymarferol.

Gwybodaeth Flaenorol:
Dadansoddi graffiau, Llunio siartiau bar syml, Defnyddio'r we/rhyngrwyd.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafodaeth ddosbarth, Atebion i daflenni gwaith, Cynhyrchu canlyniadau data.

Gweithgaredd Ymestyn: Ymchwiliwch i chwaraeon rydych wedi bod eisiau rhoi cynnig arno erioed. Dewch o hyd i glwb lleol a chysylltwch â hwy. Pwy yw corff llywodraethu'r chwaraeon? Dysgwch am y rheolau a pha offer y gallai fod ei angen arnoch. Rhowch gynnig ar y chwaraeon ac ysgrifennwch werthusiad.

Syniadau Gwaith Cartref: Ysgrifennwch fywgraffiad ar berson enwog ym myd chwaraeon rydych yn eu hedmygu ac esboniwch pam eich bod yn eu hedmygu.

Nodiadau:
I ddechrau: Daw'r data hwn o sampl o Gam 3 y prosiect CensusAtSchool yn www.censusatschool.ntu.ac.uk Gellir ei osod gan ddefnyddio bwrdd gwyn. Defnyddiwch flychau testun i guddio labeli ac echelinau (heblaw am y teitl) ac yna symudwch y blychau testun yn ôl yr angen. Er mwyn cymharu graffiau yn effeithiol, cwblhewch y daenlen sefydlu yn y ffeiliau perthnasol, neu crëwch eich taenlen eich hun ymlaen llaw.

Prif dasg: Caiff y data a ddefnyddir yn y daflen waith ei gynnwys yn ffeil y daenlen ar gyfer y wers. Mae'r data craidd ar gyfer y Dasg ymestyn yn sampl o ddata Cam 3 CensusAtSchool.

Sesiwn lawn: Y dogfennau Atgynhyrchwyd http://www.sportengland.org/resources/pdfs/publicat_pdfs/Young-People-and-Sport-2002-headline.pdf a http://www.sportengland.org/resources/pdfs/publicat_pdfs/Womens_participation_factsheet.pdf a ddarperir gyda chaniatâd caredig Sport England yn www.sportengland.org. Ceir llawer o ystadegau a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer y drafodaeth ddosbarth. Unwaith y byddwch wedi penderfynu pa rai sydd fwyaf priodol ar gyfer eich dosbarth gallai fod yn ddefnyddiol i lunio taflen syml i'r disgyblion ei darllen.

I gael gweithgaredd perthnasol arall gweler:
http://www.censusatschool.ntu.ac.uk/files/haretortoise.pdf
http://www.statistics.gov.uk/cci/nugget.asp?id=735

Eich nodiadau/cwestiynau eich hun:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad

Crëwyd yr adnodd hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn www.statistics.gov.uk